Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

# Y tîm prentisiaethau

## Diweddariad: Rhagfyr 2025

## Diweddariadau i to Fframweithiau/Llwybrau/Cymwysterau

L4 Y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol - wedi'i ddiweddaru drwy gyflwyno cymhwyster Agored newydd (i ddisodli City & Guilds)

L2 Cynorthwywyr Nyrsio mewn Amgylchedd Milfeddygol: Mae Central Qualifications wedi diweddaru eu Diploma Lefel 2 ar gyfer Cynorthwywyr Nyrsio Milfeddygol (anifeiliaid bach). Mae gan y cymhwyster rif a theitl newydd: C00/4653/1 Diploma Lefel 2 CQ ar gyfer Cynorthwywyr Nyrsio Milfeddygol - Anifeiliaid Bach

Mae Prentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Tai wedi cael ei hychwanegu – y cymwysterau yw Tystysgrif CIH mewn Tai (cymhwysedd) a Diploma City & Guilds mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth (gwybodaeth)

L3 Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol
Cymhwyster wedi'i ychwanegu

Mae **L3 Treftadaeth Ddiwylliannol** wedi cael ei dynnu o'r llwybr Treftadaeth Ddiwylliannol (mae L5 yn weddill)

Gofal Iechyd roedd gwall mewn systemau swyddfa gefn wedi achosi rhai problemau o ran arddangos/camleoli cymwysterau. Mae'r materion hyn wedi cael eu datrys:

- Mae **Diploma L3 FutureQuals mewn Gofal Argyfwng Ambiwlans a Chymorth Gofal Brys** bellach wedi'i harddangos yn gywir yn y Fframwaith Ymarferydd Ambiwlans Cyswllt
- Mae **Diploma L3 City & Guilds mewn Nyrsio Deintyddol** bellach wedi'i harddangos yn gywir yn y Fframwaith Nyrsio Deintyddol

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

- **Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol yng Nghymru a Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Gofal Iechyd Sylfaenol yng Nghymru** - mae'r rhifau cymhwyster cywir wedi'u hailosod ar gyfer y ddau
- **Gweinyddiaeth Feddygol L2 a L3.** Mae'r llwybr **Newydd** wedi cael ei gyhoeddi, ond mae Medr ar hyn o bryd yn gweithio ar y band cyllido.

## Adolygiadau

Mae gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar y canlynol, a grwpiau llywio ar fin cael eu sefydlu:

- Moduron
- Amaethyddiaeth
- Ynni

Mae gwaith parhaus yn digwydd ar:

- Peirianneg
- Gwasanaethau Adeiladu
- Adeiladu
- Digidol
- Creadigol
- Gwaith Chwarae a Chefnogi Dysgu ac Addysgu (grwpiau ar wahân)

## Rhaglen Brentisiaethau Newydd (o 2027)

Daeth ein hymgynghoriad i ben ar 31 Hydref. Ochr yn ochr â'r arolwg ar-lein, cynhaliwyd 5 digwyddiad ymgysylltu hefyd, gyda 3 ohonynt ar-lein a 2 yn y cnawd (un wedi'i gynnal yn y gogledd a'r llall wedi'i gynnal yn y de). Dros y cyfnod hwn gwnaethom ymgysylltu â 335 o randdeiliaid traws sector a derbyn cyfanswm o 82 o ymatebion ysgrifenedig i'n harolwg ar-lein. Rydym yn coladu'r adborth ar hyn o bryd, a byddwn yn gallu ei rannu yn y Flwyddyn Newydd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r sylwadau a'r safbwyntiau a rannwyd â ni ar draws yr holl ddulliau, ac yn diolch ichi am gymryd rhan.

## Peilot Microgymwysterau

Bydd swm Dysgu Seiliedig ar Waith o **£272,559.47**yn cael ei ddyrannu i Ddeiliaid Contractau Prentisiaeth (ACH) er mwyn cyflwyno cyrsiau Microgymwysterau byr i brentisiaid presennol. Mae'r rhestr cyrsiau wedi'i halinio â rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol (PLA) ac fe'i datblygwyd ar ôl ymgynghori â'r ACH, cyrff y diwydiant a rhanddeiliaid allweddol. Cytunwyd ar y dyraniadau yn dilyn proses mynegi diddordeb a weithredwyd gan Medr.

Gellir gweld y manylion llawn ar ein gwefan.